WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Dinas a Sir Abertawe**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 131A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Steve Barry, Tim Buckle, Samantha Clements a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae angen iddo egluro sut y caiff effaith newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau ei gwerthuso.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae angen iddo egluro sut y caiff effaith newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau ei gwerthuso 7

- Mae gan y Cyngor weledigaeth a fframwaith clir ar gyfer cefnogi penderfyniadau a wneir mewn perthynas â newidiadau sylweddol i wasanaethau 7
- Mae rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â phenderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau yn glir ac mae aelodau a swyddogion yn eu deall 8
- Caiff proses y Cyngor o arfarnu opsiynau gwasanaeth ei hategu'n effeithiol gan asesiadau effaith a meini prawf clir ar gyfer dethol 9
- Mae adolygiadau comisiynu yn disgrifio'r canlyniadau bwriadedig ond nid ydynt wedi egluro'n gyson sut y caiff effaith newidiadau ei gwerthuso yn y dyfodol 11
- Mae'r Cyngor wedi gwerthuso'r broses ar gyfer adolygiadau comisiynu ac wedi'i mireinio 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 ‘Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus y maent yn atebol iddynt, yn ymgysylltu â nhw a, lle y bo'n briodol, yn arwain eu cymunedau. [1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: ‘Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain’.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth. O ganlyniad, ni wnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer yr adolygiadau comisiynu a gynhaliwyd gan y Cyngor o wasanaethau mewnol.

[1] Cyfieithiad o CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007

[2] Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Delivering good governance in local government' fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2016, er mwyn llywio ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu newidiadau i wasanaethau a phenderfynu arnynt, ystyriwyd agweddau ar y trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag amrywiaeth o gynigion ar gyfer gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau a ystyriwyd roedd:

- Adolygiad Comisiynu Canolfannau Preswyl ac Awyr Agored
- Adolygiad Comisiynu Diwylliant a Hamdden
- Adolygiad Comisiynu Rheoli Gwastraff
- Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Oedolion

6 Mabwysiadodd y Cyngor strategaeth gynhwysfawr ar gyfer newid yn 2014. Roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r gwasanaethau a ddarperir drwy ddefnyddio 'Adolygiadau Comisiynu' a ddechreuodd yn 2015. Roedd yr enghreifftiau a ystyriwyd gennym yn deillio o weithgareddau'r Cyngor yn ystod cam cyntaf y broses ac rydym yn cydnabod bod y Cyngor yn dysgu gwersi o'r cam hwn, gan fireinio trefniadau a datblygu diwylliant i gefnogi newidiadau yn y dyfodol. Ers 2017, bu'r Cyngor yn symud tuag at adolygiadau o weithgareddau trawsbynciol ac yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth gydgynhyrchu adolygiadau ac opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

7 Nid ystyriwyd pob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau yn fanwl, ond yn hytrach fe'u defnyddiwyd fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Rydym yn cydnabod hefyd bod rhai o'r arferion a fabwysiadwyd yn ystod yr adolygiadau cynnar wedi'u mireinio ers hynny.

8 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond bod angen iddo egluro sut y caiff effaith newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau ei gwerthuso.

# Cynigion ar gyfer gwella

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Gwella gallu'r cyhoedd i weld gwybodaeth am weithgareddau'r Cyngor mewn perthynas ag Adolygiadau Comisiynu a chanlyniadau'r adolygiadau hynny drwy gysylltu'r holl wybodaeth ar y wefan am y rhaglen gyffredinol a chyfeirio at ei hargaeledd. |
| C2 | Er y caiff arbedion ariannol posibl eu nodi'n gyson, dylai'r Cyngor sicrhau bod y broses ar gyfer dod ag adolygiad i ben yn llwyddo'n gyson i nodi'r effaith fwriadedig ar ddefnyddwyr gwasanaethau a sut y caiff yr effaith honno ei gwerthuso yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu clir ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau ond mae angen iddo egluro sut y caiff effaith newidiadau ar ddefnyddwyr gwasanaethau ei gwerthuso

### Mae gan y Cyngor weledigaeth a fframwaith clir ar gyfer cefnogi penderfyniadau a wneir mewn perthynas â newidiadau sylweddol i wasanaethau

9 Mae gan y Cyngor weledigaeth gyffredinol ar gyfer Abertawe fwy diogel, gwyrddach, doethach, tecach, iachach a chyfoethocach wedi'i chefnogi gan flaenoriaethau, gwerthoedd ac egwyddorion clir. Maent wedi'u cynnwys o fewn strategaeth y Cyngor ar gyfer newid, 'Abertawe Gynaliadwy - yn addas i'r dyfodol'. Mabwysiadodd Cabinet y Cyngor y strategaeth a'i fframwaith cyflawni ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r fframwaith yn ystyried pedair elfen allweddol, sef Diben Craidd y Cyngor, ei Fframwaith Polisi, ei weledigaeth o'r Cyngor yn y Dyfodol a'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig.

10 Ers 2015, mae'r Cyngor wedi gweithredu rhaglen tair blynedd o Adolygiadau Comisiynu sy'n ystyried y potensial o ran modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau o fewn 18 o feysydd gweithgaredd y Cyngor. Mae canllawiau ar waith ar gyfer timau adolygu, gan gynnwys y cwestiynau craidd i'w gofyn, er mwyn helpu i roi'r rhaglen Adolygiadau Comisiynu ar waith. Dros amser, mae'r Cyngor wedi dysgu o'i brofiad ac wedi cyflwyno canllawiau pellach yn ogystal ag addasu prosesau.

11 Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r broses Adolygiadau Comisiynu lywio cynigion i drawsnewid gwasanaethau, sicrhau cynaliadwyedd ariannol a chyflawni gwell canlyniadau i drigolion. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl y bydd unrhyw newid yn diogelu cynaliadwyedd gwasanaethau, gan ddod yn fwy effeithlon a chyrraedd targedau arbedion ar yr un pryd. Mae'r broses yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- nodi anghenion y gymuned;
- dynodi canlyniadau;
- cyflwyno opsiynau sy'n galluogi penderfyniad o ran y ffordd orau o ddarparu'r gwasanaeth; a
- monitro gweithgareddau yn y dyfodol.

12 Mabwysiadodd y Cyngor egwyddorion Datblygu Cynaliadwy fel rhan allweddol o'i fframwaith polisi yn 2006. Cymeradwyodd strategaeth ar gyfer hysbysu staff a cheisiodd integreiddio ystyriaethau datblygu cynaliadwy ym mhob penderfyniad a

wnaed. Sefydlodd y Cyngor hefyd Uned Datblygu Cynaliadwy benodedig a chynhwysodd datblygu cynaliadwy fel disgwyliad i'w ystyried yn ystod y broses Adolygiadau Comisiynu.

13 Ers 2012, mae un o bortffolios Cabinet y Cyngor wedi cynnwys cyfrifoldeb dros oruchwylio gweithgareddau datblygu cynaliadwy, ac yn 2014, sefydlodd y Cyngor rôl ar gyfer aelod o'r Cabinet a fyddai'n uniongyrchol gyfrifol am Wasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf. Yn ddiweddar, sefydlodd y Cyngor hefyd Fwrdd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys aelodau a swyddogion er mwyn gweithredu fel cyfrwng llywodraethu ar gyfer rhwymedigaethau statudol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

## Mae rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â phenderfyniadau ar newidiadau i wasanaethau yn glir ac mae aelodau a swyddogion yn eu deall

14 Mae rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u nodi'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae'r 'Commissioning Review Service Specification Workbook' (y Llyfr Gwaith) hefyd yn nodi rolau a chyfrifoldebau penodol mewn perthynas â'r broses Adolygiadau Comisiynu. Yn ystod y cyfweliadau, dangosodd aelodau a swyddogion ddealltwriaeth glir o'r disgwyliadau hyn.

15 Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith llywodraethu penodol ar gyfer rheoli'r broses o gynnal Adolygiadau Comisiynu a'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'r fframwaith hwn yn annog rhyngweithio â grwpiau allweddol eraill o swyddogion ac aelodau sy'n rhan o'r broses o roi strategaeth Abertawe Gynaliadwy ar waith. Mae'r fframwaith yn cynnwys y canlynol:

- y **Rhaglen Adolygiadau Comisiynu**: yn galluogi darlun clir o gynnydd, yn egluro cyfrifoldebau dros gyfnodau allweddol pob adolygiad ac yn cynnig y cyfle i nodi pryd y gellir gwireddu buddiannau disgwyliedig adolygiad.
- **Bwrdd y Rhaglen Adolygiadau Comisiynu (CRPB)**, sef swyddogion y Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae'r swyddogion yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phrif Swyddogion. Caiff y Bwrdd hwn ei lywio gan y Maes Comisiynu ac mae'n hwyluso'r gwaith cyffredinol o roi'r rhaglen ar waith.
- y **Grŵp Adolygu Perfformiad Cyllidebol (BPRG)**, a fynychir gan yr Arweinydd, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddogion perthnasol ac Aelodau'r Cabinet. Mae'n golygu y gellir asesu cyfraniad yr Adolygiadau Comisiynu at dargedau arbedion yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- cyflwynir **dangosfyrddau ac adroddiadau porth misol Adolygiadau Comisiynu** i'r CRPB a'r BPRG er mwyn eu hysbysu am gynnydd y rhaglen.

16 Ar lefel y Cabinet, mae aelod y portffolio Trawsnewid a Pherfformiad yn gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen Adolygiadau Comisiynu gyfan. Mae aelodau portffolios eraill y

Cabinet yn gyfrifol am Adolygiadau Comisiynu a gynhelir o fewn eu maes cyfrifoldeb.

17 Cymeradwyodd y Cyngor strwythur Uwch Reolwyr newydd ym mis Ebrill 2016. Fel rhan o'r broses ailstrwythuro, creodd y Cyngor swydd newydd, sef Prif Swyddog Trawsnewid. Mae deiliad y swydd hon yn gyfrifol am roi'r Strategaeth Abertawe Gynaliadwy ar waith ac mae'n ymgymryd â rôl hanfodol wrth oruchwylio holl weithgarwch yr Adolygiadau Comisiynu. Mae hefyd yn aelod o'r CRPB. Mae hyn wedi helpu i wella'r ffordd y cydgysylltir y cymorth a roddir i'r gwasanaethau hynny sy'n destun adolygiadau.

18 Ceir ffora anffurfiol hefyd yn y fframwaith llywodraethu megis 'deunydd briffio i aelodau' ar Abertawe Gynaliadwy sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd yr Adolygiadau Comisiynu. Hefyd, 'Sustainable Swansea Delivery Watch', sef system ar gyfer cysylltu cynnydd yr Adolygiadau Comisiynu â thargedau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Cyngor yn sicrhau bod gwybodaeth am gynigion ar gael i'r cyhoedd pan gânt eu cyflwyno i'r Cabinet wneud penderfyniad arnynt.

## Caiff proses y Cyngor o arfarnu opsiynau gwasanaeth ei hategu'n effeithiol gan asesiadau effaith a meini prawf clir ar gyfer dethol

19 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu meini prawf ar gyfer gwerthuso'r opsiynau ar gyfer newidiadau i wasanaethau. O'r pedwar adolygiad a ystyriwyd gennym, arweiniodd canlyniad pob adolygiad at argymhellion gan swyddogion a phenderfyniadau gan y Cabinet i drawsnewid a chadw'r gwasanaeth presennol a gynigir gan y Cyngor.

20 Mae'r llyfr gwaith yn disgwyl i swyddogion ac aelodau werthuso gwahanol ddulliau cyflwyno fel rhan o bob adolygiad, sef:

- trawsnewid yn fewnol;
- sefydlu neu ddarparu drwy ymddiriedolaeth/corff di-elw newydd;
- comisiynu ymddiriedolaeth/corff di-elw sy'n bodoli eisoes;
- comisiynu gweithredwr masnachol;
- sefydlu cwmni hyd braich;
- cydberthnasau rheoli newydd drwy grwpiau cymunedol; a
- chydweithredu ag eraill.

Arddangosyn 2 - mae meini prawf ar waith ar gyfer llywio'r broses arfarnu opsiynau

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r meini prawf canlynol er mwyn asesu pob opsiwn amgen ar gyfer darparu gwasanaethau ym mhob Adolygiad Comisiynu:

| Meini Prawf | Cwmpas |
|---|---|
| Canlyniad | • Cyflawni Amcanion Craidd perthnasol Dinas a Sir Abertawe<br>• Cyflawni Gweledigaeth Gwasanaeth, Cenhadaeth a chanlyniadau Craidd yr Adolygiad Comisiynu yn y dyfodol |
| Cydweddu â Blaenoriaethau | • Rhoi blaenoriaethau corfforaethol Dinas a Sir Abertawe ar waith |
| Effaith Ariannol | • Cyflawni Arbedion NNDR<br>• Cyflawni Arbedion/Arbedion Targed y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y tair neu bum mlynedd nesaf<br>• Costau sefydlu cyfyngedig neu ddim costau sefydlu neu mae angen buddsoddiad ymlaen llaw<br>• Yn cyflawni Arbedion TAW<br>• Yn cyflawni derbyniad cyfalaf |
| Cynaliadwyedd/Hyfywedd | • Cael ei weithredu o fewn y cyfyngiadau cyfreithiol (er enghraifft, cyfamodau ac ati)<br>• Sicrhau cynaliadwyedd neu wneud gwelliant i'r gwasanaeth er budd dinasyddion |
| Y gallu i'w gyflawni | • Cael ei weithredu o fewn y terfynau amser penodedig<br>• Gellir ei weithredu o fewn cyfyngiadau cost<br>• Gall fodloni disgwyliadau'r maes gwasanaeth o fewn yr heriau |

21 Mae'r Cyngor yn defnyddio system sgorio tri band (gwyrdd, oren neu goch) i helpu i werthuso opsiynau amgen yn erbyn pob un o'r opsiynau yn Arddangosyn 1 a phennu 'sgôr' gyffredinol ar gyfer pob opsiwn. Ym mhob un o'r pedwar adolygiad a ystyriwyd gennym, roedd sgôr y Cyngor o gymorth iddo wneud penderfyniad i drawsnewid a chadw'r gwasanaeth presennol a gynigir gan y Cyngor.

22 Mae asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn rhoi sicrwydd bod y cynigion ar gyfer newidiadau i wasanaethau yn ystyried dyletswyddau statudol a blaenoriaethau corfforaethol. Mae tîm corfforaethol y Cyngor ar gael i roi cyngor am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys dulliau ymgynghori posibl. Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd y broses o asesu effaith drwy ddefnyddio un ffurflen asesu i gofnodi ystyriaethau cydraddoldeb ynghyd â disgwyliadau eraill y Cyngor megis defnyddio'r Gymraeg, ei strategaeth gwrth-dlodi a hyrwyddo cydlyniant cymunedol.

23 Mae'r Cyngor yn defnyddio ffurflenni sgrinio safonol i gynnal gwerthusiadau cychwynnol o gynigion er mwyn penderfynu a oes angen cynnal asesiad llawn. Mae hyn wedi galluogi timau'r Adolygiadau Comisiynu i gynnal asesiadau priodol â chwmpas addas ar gam cynnar yn ystod eu hadolygiadau. Er bod pob adroddiad ar Adolygiad Comisiynu i'r Cabinet yn nodi p'un a oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ai peidio, nid oedd y ffurflen sgrinio na'r asesiad, lle y bo'n berthnasol, wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad i'r Cabinet cyn mis Mawrth 2017. Ers mis Mawrth 2017, roedd naill ai'r ffurflen sgrinio neu'r asesiad llawn wedi'i gynnwys gydag adroddiadau i'r Cabinet, gan wella tryloywder y broses o wneud penderfyniadau.

## Mae adolygiadau comisiynu yn disgrifio'r canlyniadau bwriadedig ond nid ydynt wedi egluro'n gyson sut y caiff effaith newidiadau ei gwerthuso yn y dyfodol

24 Mae Adolygiadau Comisiynu wedi nodi'r canlyniadau bwriadedig ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r adolygiadau diweddaraf wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu opsiynau ac wrth nodi pa gynigion yr hoffent eu cyflwyno i'r Cabinet. Nododd adolygiadau cynharach o fewn pa gyd-destun yr oedd gwasanaeth yn cael ei ddarparu, ei gyfraniad at gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a defnyddiodd adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth fel ffordd o lywio adolygiadau.

25 Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd wrth roi'r rhaglen gyffredinol ar waith drwy adroddiadau 'dangosfwrdd comisiynu' misol. Mae'r rhain yn gyson yn cynnwys gwybodaeth am gyflawni yn erbyn targedau ariannol a'r broses o roi camau gweithredu allweddol ar waith ond nid ydynt yn nodi sut y caiff newidiadau eu gwerthuso o ran y gwelliant yr anelir ato. Er y caiff 'buddiannau' camau gweithredu eu cofnodi, fe'u disgrifir fel arfer yn nhermau gostyngiadau o ran nifer y staff neu'r arbedion ariannol a wnaed heb gyfeirio at yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

26 Fodd bynnag, mae adroddiad diwedd prosiect yr Adolygiad Comisiynu Cymorth i Deuluoedd a luniwyd ym mis Mawrth 2017 a cherdyn sgorio Cynllun Gwasanaeth y Gwasanaethau Diwylliannol yn cynnig enghreifftiau o sut y gall y Cyngor ddefnyddio prosesau sy'n bodoli eisoes i atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cwblhau adolygiad ac adroddiadau perfformiad gwasanaethau dilynol.

27 Er enghraifft, mae'r adroddiad diwedd prosiect yn cynnwys manylion trosglwyddo camau gweithredu i dimau gwasanaeth, yn disgrifio'r mesurau llwyddiant bwriadedig ac yn ymrwymo i gyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau i'r Cabinet. Mae cerdyn sgorio'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys amrywiaeth o fesurau ar gyfer cynnwys elfennau o fewn trefniadau monitro perfformiad gwasanaethau sy'n bodoli eisoes a ddylai arwain at allu asesu effaith yr adolygiad ar draws amrywiaeth o feini prawf.

## Mae'r Cyngor wedi gwerthuso'r broses ar gyfer adolygiadau comisiynu ac wedi'i mireinio

28 Mae'r Cyngor yn bwriadu cwblhau'r cylch hwn o Adolygiadau Comisiynu mewn tri cham: cam un yn 2015-16; cam dau yn 2016-17, a cham tri yn 2017-18.

29 O'r cychwyn cyntaf, cynhwysodd y Cyngor gamau adolygu er mwyn ei alluogi i fireinio'r broses Adolygiadau Comisiynu. Mae'r broses wedi cynnwys y canlynol:

- diwrnodau cwrdd i ffwrdd i'r Cabinet bob blwyddyn ar ôl cwblhau'r adolygiad, sef mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, er mwyn gwerthuso beth a weithiodd yn dda, beth na weithiodd cystal a thrafod cynnydd mewn perthynas ag argymhellion y flwyddyn flaenorol
- adolygiad gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu ym mis Chwefror 2016 a arweiniodd at gytundeb y byddai pob Adolygiad Comisiynu yn destun proses graffu cyn gwneud penderfyniad drwy'r pwyllgor neu'r Paneli perthnasol fel y bo'n briodol. Daeth adolygiad pellach gan y Pwyllgor ar 10 Ebrill 2017 i'r casgliad canlynol: Bu'r broses o graffu ar Adolygiadau Comisiynu yn gam cadarnhaol ymlaen, ond gellid gwella'r broses ymhellach drwy neilltuo mwy o amser i graffu ar adroddiadau pwysig o'r fath i'r Cabinet. Caiff y dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyflwyno Adolygiadau Comisiynu i'r Cabinet eu cynnwys yn y rhaglen graffu.
- hunanasesiad gan dimau o swyddogion a leihaodd nifer y camau yn y broses Adolygiadau Comisiynu er mwyn cyflymu'r broses o gwblhau'r rhaglen Adolygiadau Comisiynu gyda'r bwriad o gyflawni'r targedau arbedion ariannol a bodloni gofynion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

30 Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â phob Adolygiad Comisiynu ar wefan y Cyngor yn gyfyngedig ac ni chyfeirir ati'n effeithiol. Nid yw'n eglur sut y byddai'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol eraill yn gallu cael gwybod am gynnydd yr adolygiadau o ran gwella canlyniadau i drigolion a sicrhau'r targedau arbedion a nodwyd yn Abertawe Gynaliadwy. Bydd gan y cyhoedd yr hawl i weld dogfennaeth Adolygiadau Comisiynu pan gyflwynir adroddiad ar gynnydd Adolygiad Comisiynu i'r Cabinet er mwyn iddo wneud penderfyniad, neu i bwyllgor Craffu er mwyn i'r pwyllgor adolygu a herio cyn gwneud penderfyniad. Yn ystod y cam hwn, mae manylion adroddiadau, cofnodion ac agendâu ar gael i'r cyhoedd fel rhan o bapurau arferol pwyllgorau.

31 Mae un o 10 egwyddor allweddol y Cyngor sy'n sail i'r broses o gynnal yr Adolygiadau Comisiynu a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2014 yn canolbwyntio ar ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid. Noda'r egwyddor y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â phobl ar gam cynnar wrth gytuno ar ganlyniadau, eu llunio a'u cyflawni e.e. y gweithlu, undebau llafur, cymunedau, ysgolion/prifysgolion a phartneriaid.

32 Mae llyfr gwaith y Cyngor yn argymell y dylid ystyried safbwyntiau amrywiaeth o randdeiliaid ar gamau penodol yn ystod pob adolygiad. Ar gyfer camau cynnar y broses Adolygiadau Comisiynu, mae llyfr gwaith y Cyngor yn cyfeirio at goladu

gwybodaeth sy'n ymwneud â dealltwriaeth y gwasanaeth o'i gwsmeriaid, gan ystyried unrhyw asesiad o anghenion, y galw am y gwasanaeth a ph'un a yw'r gwasanaeth yn gwybod barn cwsmeriaid, defnyddwyr mewnol ac aelodau am y model gwasanaeth arfaethedig. Felly, yn ystod cam cynnar Adolygiad Comisiynu, ystyrir y ddealltwriaeth bresennol o safbwyntiau rhanddeiliaid a gwneir penderfyniadau dilynol am lefelau ymgysylltu â rhanddeiliaid gan ddibynnu ar natur unrhyw newid a ystyrir. Er enghraifft, darparodd yr adolygiad rheoli gwastraff safbwyntiau a gafwyd o arolygon diweddar â defnyddwyr y gwasanaeth am y gwasanaeth fel ag yr oedd, a gofynnodd yr adolygiadau gofal oedolion am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth unigol am yr opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau.

33 Mae'r adolygiadau mwy diweddar wedi datblygu'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhellach gan eu cynnwys fel 'cydgynhyrchwyr' yr opsiynau sy'n deillio o'r broses. Er enghraifft, drwy gynnwys amrywiaeth ehangach o randdeiliaid wrth bennu cwmpas yr Adolygiad Comisiynu Cymorth i Deuluoedd a chydgynhyrchu cwmpas maes Plant ag Anableddau'r adolygiad gyda rhanddeiliaid. Mae'r thema 'cydgynhyrchu' hon yn un o elfennau allweddol cam nesaf y broses Adolygiadau Comisiynu.

34 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd wedi cwblhau'r rhaglen yn ystod 2017-18 a bwriedir cyflwyno cam newydd o'r rhaglen bryd hynny er mwyn canolbwyntio ar drawsnewid; yr agenda ddigidol a'r Cyngor yn y dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru